YR EGLWYS yng NGHYMRU | THE CHURCH IN WALES

# Canllawiau i Glerigion
# Byw mewn Persondy

Argraffiad 2025

# Cynnwys

(cliciwch ar y pennawd isod i symud i'r adran honno ac ar bennawd y dudalen i ddychwelyd i'r dudalen cynnwys)


| Adran | | Pennawd | Tudalen |
|---|---|---|---|
| **1** | | **Cyflwyniad** | 2 |
| **2** | | **Argyfyngau / Sefyllfaoedd Brys** | 2 |
| **3** | | **Dyletswyddau a chyfrifoldebau** | 3 |
| | 3.1 | Dyletswyddau y Bwrdd Persondai | 3 |
| | 3.2 | Cyfrifoldebau Clerigion | 4 |
| **4** | | **Cynnal a chadw yr addurn mewnol** | 5 |
| **5** | | **Delio â chyddwysiad a lleithder** | 6 |
| **6** | | **Cynnal a chadw gerddi** | 7 |
| **7** | | **Gosodiadau a ffitiadau** | 7 |
| **8** | | **Gwasanaethau** | 8 |
| | 8.1 | Trydan | 8 |
| | 8.2 | Systemau gwresogi nwy ac olew, ac offer llosgi coed a thanwydd solet | 8 |
| | 8.3 | Dŵr | 8 |
| | 8.4 | Carthbyllau, tanciau septig, cyfarpar trin carthffosiaeth a draeniau | 9 |
| | 8.5 | Diogelwch a thân | 9 |
| | 8.6 | Carbon monocsid | 9 |
| | 8.7 | Effeithlonrwydd egni | 10 |
| **9** | | **Materion cyfreithiol sy'n ymwneud â phersondai** | 10 |
| | 9.1 | Defnydd busnes | 10 |
| | 9.2 | Defnydd y plwyf | 10 |
| | 9.3 | Hysbysiadau cyfreithiol | 10 |
| | 9.4 | Yswiriant | 11 |
| **10** | | **Mynediad, archwilio a gwaith** | 11 |
| | 10.1 | Mynediad ar gyfer archwilio a gwaith | 11 |
| | 10.2 | Ymgynghorwyr a chontractwyr | 11 |
| **11** | | **Persondy gwag** | 12 |
| | 11.1 | Gadael y persondy | 12 |
| | 11.2 | Gwarchodaeth persondy gwag | 13 |
| **12** | | **Gweithdrefn gwyno** | 13 |

# 1. Cyflwyniad

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys set o ganllawiau ymarferol a synnwyr cyffredin i bawb sy'n meddiannu persondy o dan reolaeth y Bwrdd Persondai / Cynllun Persondai yr Esgobaeth. Bwriad y ddogfen hon yw bod yn ganllaw defnyddiol a chefnogol i'ch helpu i fwynhau byw yn eich cartref.

Nid yw'n rhestr gynhwysfawr o'r holl bethau y gallech eu hwynebu, ac nid yw'n ddogfen gyfreithiol.

Cyfeirir at y fframwaith cyfreithiol y byddwch yn meddiannu'r tŷ oddi tano a sut mae'r Bwrdd Persondai'n gweithredu ym 'Mhennod VII: Persondai' Cyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru: **https://www.churchinwales.org.uk/cy/clergy-and-members/constitution/chapter-vii-parsonages**

Nod y Bwrdd Persondai yw darparu llety digonol a chyfforddus i glerigion yr Esgobaeth. Weithiau, er mwyn hyrwyddo'r nod hwn, bydd peth tarfu ar fywyd clerigion a'u teuluoedd, ac weithiau, oherwydd pwysau ariannol, ni fydd yn bosibl derbyn ceisiadau penodol. Pan fydd hyn yn digwydd, byddem yn gwerthfawrogi eich amynedd. Rydym yn ystyried cynnal a chadw persondai fel partneriaeth gydweithredol rhwng y Bwrdd Persondai a'r preswylwyr dan sylw.

Bydd Arolygydd Persondai yr Esgobaeth yn falch o gynnig cyngor ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â meddiannaeth a gofal y safle.

**Gweler y dudalen ar wahân o gysylltiadau allweddol o fewn pecyn gwybodaeth y tŷ.**

# 2. Argyfyngau/Sefyllfaoedd Brys: y tu allan i oriau, ar benwythnosau a gwyliau cyhoeddus

**NODER: Os ydych chi'n arogli nwy, yn meddwl bod nwy'n gollwng, neu'n poeni am fwg o ddyfais nwy, ffoniwch y Gwasanaethau Brys Nwy am ddim ar unwaith, 0800 111 999.**

**Gweler y dudalen ar wahân yn y pecyn gwybodaeth tŷ am wasanaeth a chontractwyr defnyddiol eraill y gellir eu galw mewn sefyllfaoedd brys.**

Pan fydd angen atgyweiriadau brys, e.e. pibellau wedi'u blocio, y to'n gollwng, gwydr neu gloeon wedi torri, draeniau wedi'u blocio, etc, dylech gyfarwyddo masnachwr lleol neu gyfleustodau cyhoeddus i wneud yr atgyweiriadau angenrheidiol ar unwaith. Dylai Arolygydd yr Esgobaeth gael ei hysbysu am unrhyw beth sydd o'i le cyn gynted â phosibl. Bydd unrhyw gostau y bydd yn rhaid i'r clerigion eu talu yn cael eu had-dalu cyn gynted ag y bydd yr anfoneb berthnasol yn cael ei chyflwyno i'r Arolygydd, yn amodol ar wiriadau am resymolrwydd ac angen.

Yn achos unrhyw nam i'r systemau gwresogi gofod neu ddŵr, system larwm, problemau plâu, cloeon a gwydr, neu ddraeniau wedi'u blocio, dylech droi at y gwasanaeth perthnasol neu'r contractwr a awgrymir, a ddarperir ar wahân gan Arolygydd yr Esgobaeth.

Sylwch mai Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am ddraeniau a rennir, lle mae draen yn croesi'r ffin o dir y persondy neu i dir y persondy. Am arweiniad: **https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/transfer-of-private-sewers-lateral-drains.pdf**

# 3.0 Dyletswyddau a chyfrifoldebau.

## 3.1 Dyletswyddau y Bwrdd Persondai

Gan weithio o fewn y cyllidebau sydd ar gael, bydd y Bwrdd Persondai fel arfer yn:

- Cynnal ac yswirio'r adeiladwaith a thu allan yr adeilad.
- Darparu a chynnal a chadw'r gosodiadau ar gyfer gwresogi gofod a dŵr a glanweithdra.
- Cynnal pob gosodiad a ffitiad sy'n cael eu hystyried yn rhan o adeiladwaith y tŷ.
- Gosod a chynnal systemau diogelwch, os nododd asesiad risg bod hynny'n angenrheidiol.
- Cynnal systemau atal tân pan fyddant wedi'u gosod.
- Gosod a chynnal a chadw cyfarpar canfod tân a charbon monocsid.
- Gosod a chynnal cyfleusterau sefydlog ar gyfer coginio.
- Sicrhau bod offer nwy yn cael eu cynnal a'u hardystio'n ddiogel bob blwyddyn.
- Sicrhau bod offer olew / lpg / biomas a thanciau storio / seilos yn cael eu cynnal bob blwyddyn.
- Sicrhau bod offer llosgi coed / tanwydd solet yn cael eu cynnal, a ffliwiau yn cael eu sgubo bob blwyddyn.
- Sicrhau bod cwteri, pibellau i lawr, a gylïau'n cael eu clirio o leiaf bob blwyddyn.
- Sicrhau bod carthbyllau / tanciau septig yn cael eu clirio, a chyfarpar trin carthion yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd.
- Sicrhau bod gosodiadau trydanol yn cael eu cadw mewn cyflwr diogel ac yn cael eu harchwilio o leiaf bob 5 mlynedd.

- Darparu silffoedd ar gyfer y stydi yn unig.
- Codi / cynnal ffensys ffiniau, lle mae'r rhain yn eiddo i Gorff y Cynrychiolwyr, i uchafaswm uchder o 2.0m, neu fel y cyfyngir gan ddeddfwriaeth gynllunio. Sylwer: nid yw'n ofynnol i'r Bwrdd Persondai ddarparu ffensys diogel i anifeiliaid anwes.
- Sicrhau bod y risgiau o ddod i gysylltiad â deunyddiau sy'n cynnwys asbestos, carbon monocsid, nwy radon a bacteria Legionella yn cael eu nodi a'u rheoli'n briodol.
- Cynnal arolwg cyflwr o'r eiddo o leiaf bob pum mlynedd.
- Trefnu addurniad allanol yn ôl yr angen.
- Archwilio a rheoli coed a gwrychoedd tal.
- Trefnir gwasanaethau rheoli plâu drwy gontractwr cymeradwy.
- Gwneud gwelliannau pan fo'n briodol ac fel y mae'r arian yn caniatáu.
- Cynnal arolwg o'r cyflwr mewnol cyn meddiannaeth ac wrth adael yr eiddo; bydd hyn yn cynnwys cofnod ffotograffig, sy'n darparu cyfeirbwynt ar gyfer archwiliadau yn ystod ac ar ddiwedd y feddiannaeth.

## 3.2 Cyfrifoldebau Clerigion

Mae Clerigion yn gyfrifol am y canlynol:

- Unrhyw beth sy'n perthyn i'r rhai sy'n byw yn y tŷ.
- Darparu yswiriant cynnwys tŷ.
- Ffiwsiau, bylbiau golau, lamplenni, batris ar gyfer clychau drws, ac eitemau traul tebyg.
- Cynnal a chadw offer trydanol cludadwy, gweler canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE): **https://www.hse.gov.uk/pubns/indg236.htm**
- Darparu offer ffôn ac erialau teledu/dysglau lloeren (a thrwyddedau priodol). Clerigion sy'n gyfrifol am osod a chynnal a chadw erialau teledu a radio a dylent sicrhau bod y rhain yn cydymffurfio â rheoliadau cynllunio lleol (cysylltwch â'ch awdurdod lleol neu Arolygydd yr Esgobaeth am gyngor). Rhaid i chi geisio cymeradwyaeth ysgrifenedig y Bwrdd Persondai cyn gosod dysgl lloeren.
- Cynnal yr addurn mewnol – gweler adran 4.
- Glanhau ffenestri, gwydr, y tu mewn a'r tu fas.

- Cynnal a chadw gerddi – gweler adran 6.
- Cadw llwybrau troed a dreifs yn glir o chwyn a mwsogl, clirio dail sydd wedi cwympo a gwaredu malurion wedi'u chwythu gan y gwynt.
- Cadw'r holl bibellau gwastraff mewnol a thrapiau yn glir o falurion, gwallt, etc.
- Cost atgyweirio eitemau sydd wedi'u difrodi oherwydd camddefnyddio neu esgeulustod.
- Unrhyw ddifrod a achosir gan eu hanifeiliaid anwes.
- Creu llociau/codi ffensys i gadw/atal eu hanifeiliaid anwes rhag dianc. Rhaid gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd Persondai ymlaen llaw.
- Sicrhau yswiriant a gofal cywir o'r tŷ, gan gynnwys penodi rhywun i archwilio a gofalu am y tŷ yn ystod unrhyw absenoldeb; dylid rhoi gwybod i Arolygydd yr Esgobaeth am unrhyw absenoldeb sy'n fwy na 30 diwrnod.
- PEIDIO â gwneud unrhyw newid strwythurol neu ychwanegiad i bersondy neu i'r ffitiadau parhaol. A PHEIDIO â gwneud unrhyw newidiadau i unrhyw wasanaethau sefydlog o fewn neu o amgylch y persondy.
- Peidio â chadw na chyflwyno unrhyw beth, neu achosi i unrhyw beth gael ei gyflwyno i'r persondy a allai gael ei ystyried yn risg i iechyd a diogelwch unrhyw breswylwyr neu ymwelwyr, contractwyr, ac ymgynghorwyr.
- Hysbysu Arolygydd yr Esgobaeth am unrhyw broblemau gyda'r tŷ a allai arwain at ddifrod strwythurol neu gost os na chânt sylw dyledus, gan gynnwys unrhyw ddifrod i'r adeiladwaith, y gosodiadau neu'r ffitiadau a allai fod yn destun hawliad yswiriant.
- Sicrhau nad oes unrhyw ddefnydd busnes, yn ddarostyngedig i'r darpariaethau a ddisgrifir yn Adran 9.1.

Nid oes disgwyl i glerigion o reidrwydd wneud yr holl eitemau cynnal a chadw hyn eu hunain ond efallai y bydd angen cyflogi a thalu contractwyr lleol. Rhaid i bob contractwr a meddiannydd gyfeirio at y Gofrestr Asbestos o fewn ffeil y tŷ cyn i unrhyw waith ddechrau, gan gynnwys gwaith addurno.

Argymhellir eich bod yn defnyddio contractwyr sydd wedi'u cymeradwyo/awgrymu gan yr Esgobaeth. Dylai pob contractwr fod ag yswiriant priodol ac yn gymwys.

## 4. Cynnal a chadw yr addurn mewnol

Mae'r Bwrdd Persondai yn disgwyl darparu tŷ i glerig sydd â'i addurn mewnol mewn trefn dda. Mae'n ofynnol i glerigion gadw eu tai yn dwt o ran addurn, er boddhad y Bwrdd Persondai. Tynnir lluniau o gyflwr y tŷ i ddarparu meincnod ar gyfer archwiliadau yn y dyfodol ac mae disgwyl i glerigion ddychwelyd eu tai i'r Bwrdd Persondai mewn cyflwr tebyg.

Pan gaiff persondy ei ddarparu, bydd ei waliau o liw niwtral/pastel. Os hoffech wneud unrhyw waith addurno i bersonoli addurn y tŷ, cysylltwch ag Arolygydd yr Esgobaeth.

Tra'n cydnabod yr awydd i arddangos paentiadau, ffotograffau, etc. ac i osod eitemau ar waliau, efallai y gofynnir i chi symud eitemau o'r fath a gwneud yn iawn amdanynt wrth adael, yn amodol ar drafodaeth gyda'r Arolygydd.

Cynhelir gwiriadau rheolaidd i sicrhau bod yr addurn mewnol yn cael ei gynnal i safon dda. Os nad yw mewn cyflwr boddhaol, rhoddir amser rhesymol i chi ymgymryd â'r gwaith.

## 5. Delio â chyddwysiad a lleithder

Cyddwysiad sydd fel arfer yn gyfrifol am y rhan fwyaf o broblemau 'lleithder' mewn tai. Pan fo aer llaith cynnes yn dod i gysylltiad ag arwynebau caled oer, mae'r dŵr yn cyddwyso, ac mae llwydni du yn datblygu lle mae'r lleithder hwn yn cael ei adael. Mae'r arwynebau oer yn cael eu gwaethygu gan ddiffyg gwresogi neu awyru a lle mae waliau allanol yn oerach nag arfer oherwydd eu cyfeiriadedd neu ffactorau allanol eraill megis lefelau tir uchel sy'n pontio'r cwrs gwrthleithder a phibellau sy'n gollwng. **Gweler hefyd pdf am gyddwysiad: www.ggf.org.uk/download/50.1 Condensation.pdf**

Gall dŵr ddod i mewn, er enghraifft, trwy doeau wedi'u difrodi, seliau ffenestri sydd wedi torri, gwteri a phibellau dŵr glaw sy'n gollwng. Rhowch wybod i Arolygydd yr Esgobaeth am unrhyw bibellau sy'n gollwng, gwteri sy'n gorlifo, neu arwyddion o leithder mewnol er mwyn gallu trwsio'r broblem yn brydlon.

Defnyddiwch offer echdynnu/awyru bob amser a riportiwch unrhyw nam ar unwaith. Awyrwch y tŷ trwy agor ffenestri mor aml â phosibl.

Gwnewch yn siŵr bod brics aer ac awyryddion, gan gynnwys fentiau i ffenestri, yn cael eu cadw ar agor a'u bod yn glir. Cadwch ddodrefn etc i ffwrdd o fentiau mewnol a chadwch lefelau'r ddaear islaw brics aer allanol. Mewn ystafelloedd sydd â chyfarpar nwy, mae'n hanfodol sicrhau llif aer trwy awyryddion a brics aer er mwyn diogelu'ch hun ac eraill.

Gwnewch yn siŵr bod yr eiddo yn cael ei gadw ar dymheredd cyson yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf a gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw ystafelloedd yn cael eu hamddifadu o wres am gyfnodau hir. Pan fyddwch i ffwrdd o gartref, cadwch y gwres ar lefel isel i atal cyddwysiad rhag ffurfio ac i leihau'r risg y bydd unrhyw bibellau'n rhewi.

Mae'n angenrheidiol sicrhau nad yw lefelau'r ddaear yn peryglu'r cwrs gwrthleithder a rhaid bod â chliriad o 150mm o leiaf islaw lefel y cwrs gwrthleithder. Os nad ydych chi'n siŵr am unrhyw beth, cysylltwch ag Arolygydd yr Esgobaeth.

Pan fydd atgyweiriadau wedi'u gwneud i gywiro lleithder mewn waliau, gall y lleithder sy'n weddill gymryd amser hir i sychu; yn achos waliau cerrig trwchus, gall gymryd sawl blwyddyn. Amynedd piau hi wrthi i'r broses sychu ddigwydd yn naturiol (neu gyda chymorth dadleithydd) er mwyn gallu ailaddurno maes o law.

# 6. Cynnal a chadw gerddi

Mae'n ofynnol i glerigion gadw eu gerddi a'u tiroedd yn daclus ac i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw cyffredinol. Dylid trosglwyddo'r gerddi a'r tiroedd yn ôl yn y cyflwr y'u darparwyd (gwneir cofnod ffotograffig).

Dylid cadw'r ymylon yn glir o blanhigion, llwyni a glaswellt er mwyn hwyluso mynediad ar gyfer gwaith cynnal a chadw.

Dylid torri lawntiau'n rheolaidd.

Dylid clirio chwyn ar arwynebau caled neu raean, megis llwybrau a dreifs, yn rheolaidd.

Dylid ysgubo dail sydd wedi cwympo.

Nid ydym yn annog tyfu planhigion, yn enwedig eiddew, i fyny waliau tai, a rhaid torri unrhyw dwf o'r fath i atal cwteri rhag blocio a thyfiant yn y to.

Peidiwch â phlannu llwyni neu goed newydd o fewn 3.0m i'r tŷ neu 1½ gwaith uchder aeddfed y goeden / llwyn pa un bynnag yw'r lleiaf.

Y Bwrdd Persondai sy'n gyfrifol am bob coeden a gwrych sydd dros 2.4m a dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i Arolygydd yr Esgobaeth cyn gynted ag y byddant yn codi; ni ddylai clerigion wneud unrhyw waith i goed na gwrychoedd uchel.

Rydym yn deall yr awydd i ddarparu lloches i fywyd gwyllt, cyfeiriwch at y canllawiau a ddarperir gan y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol, **https://www.rhs.org.uk/wildlife.**

Os ydych chi'n cael unrhyw anawsterau i gynnal eich gardd, cysylltwch ag Arolygydd yr Esgobaeth.

# 7. Gosodiadau a ffitiadau

Ystyrir bod unrhyw osodiadau - gan gynnwys silffoedd, cypyrddau dillad neu gypyrddau wedi'u gosod, unedau cegin wedi'u gosod, arwynebau gwaith, unedau sinc, cyfarpar coginio neu offer eraill, gwyntyllau echdynnu, ffitiadau ystafell ymolchi a thoiledau, cawodydd a gwaith teils - sy'n bodoli ar y dyddiad meddiannu, neu a ychwanegir wedyn gan y Bwrdd Persondai yn perthyn i'r Bwrdd Persondai. Ni chaniateir symud na newid unrhyw un o'r eitemau hyn heb ganiatâd penodol y Bwrdd Persondai.

Rhaid sicrhau caniatâd y Bwrdd Persondai bob tro cyn gosod unrhyw osodiadau a ffitiadau o fewn eiddo persondy.

# 8. Gwasanaethau

## 8.1 Gosodiadau trydanol

Ymgyfarwyddwch â lleoliad prif switsys trip eich tŷ fel y gellir ymateb yn gyflym i unrhyw argyfwng.

Mae gosodiadau trydanol yn cael eu harchwilio'n rheolaidd i helpu i sicrhau iechyd a diogelwch y meddianwyr. Dylid rhoi gwybod i Arolygydd yr Esgobaeth am unrhyw bryderon am y gosodiadau trydanol, er enghraifft, goleuadau sy'n pylu, socedi neu switsys sy'n gwreichioni, socedi â nam, neu fethiant mynych bylbiau golau, cyn gynted â phosibl. Ni ddylech o dan unrhyw amgylchiadau wneud unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau i'r gosodiadau trydanol nac achosi'r fath newidiadau trwy gyflogi contractwyr allanol.

## 8.2 Systemau gwresogi nwy ac olew, ac offer llosgi coed a thanwydd solet

Ymgyfarwyddwch â lleoliad falf cau mewn argyfwng y cyflenwad tanwydd perthnasol, sydd fel arfer wrth ymyl y mesurydd/tanc, fel y gellir ymateb yn gyflym i unrhyw argyfwng.

Mae'r holl systemau nwy ac olew yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol a'u cyflwr yn cael eu harchwilio, gan helpu i sicrhau diogelwch. Mae'r contract yn cynnwys holl elfennau'r systemau gwresogi a dŵr poeth, tanau nwy, a phoptai nwy, gan gynnwys systemau LPG.

Bydd cyfarpar llosgi coed a thanwydd solet eraill yn cael eu harchwilio gan y contractwr gwasanaeth bob blwyddyn a bydd ffliwiau'n cael eu sgubo.

Wrth dynnu aer o'r rheiddiaduron, dylech sicrhau bod y pwmp a'r boeler wedi'u diffodd, i atal mwy o aer rhag cael ei dynnu i mewn i'r system. Mae rhai systemau wedi'u selio ac ni ddylid eu hawyru o gwbl. Os nad ydych chi'n siŵr, cysylltwch â'r contractwr gwasanaeth am gyngor.

## 8.3 Dŵr

Ymgyfarwyddwch â lleoliad y prif dap cau fel y gellir ymateb yn gyflym i unrhyw argyfwng.

Rhowch wybod i Arolygydd yr Esgobaeth am unrhyw ddŵr sy'n gollwng o bibellau, o gyfarpar neu offer gwresogi, cyn gynted ag y sylwch chi arno. Peidiwch â gwneud unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau i'r systemau dŵr, na chyflogi contractwr i wneud hynny.

Byddai'n werth i chi ystyried gosod mesurydd dŵr er mwyn lleihau costau a'ch annog i arbed dŵr; mae hyn hefyd yn helpu i leihau costau i'r persondy / fywoliaeth / Ardal Weinidogaeth pan fydd y persondy'n wag.

## 8.4 Carthbyllau, tanciau septig, cyfarpar trin carthffosiaeth a draeniau

Defnyddiwch lanedydd a sebon ysgafn / bioddiraddadwy yn unig.

Peidiwch â gwaredu papur chwyddadwy / cynhyrchion tecstilau i'r system, er enghraifft, tywelion mis
glif, cadachau, ffyn cotwm.

Peidiwch â gwaredu olewau coginio neu saim o unrhyw fath i'r system.

Byddwch yn ymwybodol o'r hyn sy'n cael ei ollwng i ddraeniau gan fod achosion o flocio yn broblem gynyddol. Peidiwch â fflysio cadachau o unrhyw fath i lawr y toiled a pheidiwch ag arllwys saim i lawr pibellau gwastraff sinc y gegin.

**NODER:** Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am rai draeniau; bydd y rhediad cychwynnol o'r tŷ i'r siambr archwilio gyntaf bron bob amser yn gyfrifoldeb i'r Bwrdd, fodd bynnag, Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am glirio draeniau sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo – os byddwch yn galw ar gontractwr, dylai, lle bo'n briodol, gyfeirio'r broblem at sylw Dŵr Cymru, gan leihau costau atgyweiriadau i'r Bwrdd.

## 8.5 Diogelwch a thân

IOs oes gennych unrhyw bryderon ynghylch diogelwch y tŷ a'r tiroedd, neu am fandaliaeth, cysylltwch ag Arolygydd yr Esgobaeth am gyngor, neu cyfeiriwch at ddogfen yr Eglwys yng Nghymru "Canllawiau Cyffredinol ar gyfer Clerigion ar Ddiogelwch Persondai":
**https://www.churchinwales.org.uk/cy/clergy-and-members/clergy-handbook/general-guidance-clergy-parsonage-security/.**

Bydd asesiad risg yn cael ei gynnal a bydd systemau priodol yn cael eu gosod, a fydd yn cael eu cwmpasu gan gontract gwasanaeth; gan ddarparu gwasanaeth blynyddol ac ymateb brys pan fo angen.

Mae synwyryddion mwg a gwres wedi'u gosod yn y tai (gan gynnwys batri wrth gefn), a fydd yn cael eu gwirio'n flynyddol. Dylai meddianwyr sicrhau bod y synwyryddion yn gweithio trwy eu profi bob mis; pan fydd y synwyryddion yn bipian, mae angen batris newydd arnynt, gwiriwch y cyfarwyddiadau yn ffeil y tŷ cyn ceisio gosod batris newydd. Os nad yw'n bosibl gosod batris newydd, cysylltwch ag Arolygydd yr Esgobaeth cyn gynted â phosibl.

## 8.6 Carbon Monocsid

Mae synwyryddion carbon monocsid wedi'u gosod yn y persondai, naill ai'n annibynnol neu maen nhw wedi'u hymgorffori mewn synwyryddion tân, ym mhob ystafell gydag offer hylosgi neu lle mae ffliwiau offer o'r fath yn pasio trwyddynt. Dylai meddianwyr sicrhau bod y synwyryddion yn gweithio trwy eu profi'n fisol; pan fydd y synwyryddion yn bipian, mae angen batris newydd arnynt; rhowch wybod i'r Arolygydd cyn gynted â phosibl.

## 8.7 Effeithlonrwydd ynni

Mae pob tŷ wedi'i asesu o safbwynt effeithlonrwydd ynni a chaiff argymhellion o'r arolygon hynny eu hymgorffori mewn gwaith pan fydd amser a chyllid yn caniatáu.

Gweler "A Practical Path to Net Zero for Parsonages," am arweiniad ar sut y gallwch chi helpu yn y ffordd rydych chi'n defnyddio'ch tŷ, yn dewis darparwr ynni, etc. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu awgrymiadau, cysylltwch â'r Arolygydd.

# 9. Materion cyfreithiol sy'n ymwneud â phersondai

## 9.1 Defnydd busnes

Derbynnir y gallai fod angen i aelodau'r teulu, sy'n byw yn y Persondy, weithio o gartref. Os ydynt yn dymuno ymgymryd â gweithgaredd â thâl yn y cartref, megis gwersi cerddoriaeth, tiwtora, celf a chrefft, gwaith gweinyddol, etc, rhowch wybod i'r Bwrdd Persondai. Bydd hyn yn helpu i asesu a rheoli unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd hwnnw a sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro ag yswiriant Corff y Cynrychiolwyr ar gyfer y tŷ.

Ni chaniateir unrhyw ddefnydd busnes ffurfiol fel is-osod, manwerthu neu wely a brecwast yn yr eiddo, gan gynnwys unrhyw adeiladau allanol.

Ni chaniateir i glerigion, o dan unrhyw amgylchiadau, rentu, gosod, na chaniatáu i'r Persondy cyfan neu ran ohono na'r tir gael eu gosod, nac unrhyw ran arall o ddaliadaeth yr eiddo cysylltiedig, a bydd hyn yn cynnwys cyfnewid tai a rhentu tai gwyliau mewn unrhyw fodd.

## 9.2 Defnydd y plwyf

Darperir y persondy yn bennaf fel cartref a man astudio i glerigion penodedig. Rhaid pwysleisio na ddylid ystyried y persondy fel cyfleuster amgen ar gyfer ystafell gyfarfod neu fel swyddfa i'r plwyf. Gallai materion hygyrchedd a diogelwch personol arwain at anawsterau i'r unigolyn, yr Esgobaeth, a Chorff y Cynrychiolwyr. Dylid symud unrhyw offer sy'n eiddo i neu sy'n cael ei rentu gan ac ar gyfer busnes y plwyf, yr Ardal Weinidogaeth Leol, yr Ardal Weinidogaeth, neu'r Ardal Genhadaeth a gedwir ar safle'r persondy, pan fydd y tŷ yn wag oni chytunir fel arall gyda'r Bwrdd Persondai.

## 9.3 Hysbysiadau cyfreithiol

Os cyflwynir unrhyw hysbysiad cyfreithiol i chi, ynglŷn â'r persondy, megis ceisiadau cynllunio ar eiddo cyfagos, gorchymyn prynu gorfodol neu gynnig gan Cadw i restru'r persondy, anfonwch y rhain ymlaen at Arolygydd yr Esgobaeth cyn gynted â phosibl. Gallai

unrhyw oedi arwain at golli’r cyfle i wrthwynebu’r cynigion, a allai, pe baent yn cael eu derbyn, effeithio’n ddifrifol ar amwynderau a gwerth yr eiddo.

**NODER:** Ni ddylai clerigion eu hunain, o dan unrhyw amgylchiadau, ymateb i hysbysiad heb gysylltu ag Arolygydd yr Esgobaeth yn gyntaf.

### 9.4 Yswiriant

Mae ffabrig yr adeilad ac unrhyw osodiadau y mae Corff y Cynrychiolwyr yn gyfrifol amdanynt wedi’u hyswirio ganddo. Mae yswirwyr yr Eglwys yng Nghymru, yr Ecclesiastical Insurance Group plc, yn darparu yswiriant i Gorff y Cynrychiolwyr yn erbyn unrhyw hawliadau trydydd parti y maent yn atebol yn gyfreithiol amdanynt sy’n deillio o ddifrod neu anaf a ddioddefwyd tra bod trydydd parti ar safle y Bwrdd Persondai a thra bod y clerigion yn cyflawni dyletswyddau ar ran yr Eglwys; mae hyn yn cynnwys difrod a achosir gan unrhyw ran o’r adeiladwaith, er enghraifft, teils yn cwympo oddi ar y to.

## 10. Mynediad, archwilio a gwaith

### 10.1 Mynediad ar gyfer archwilio a gwaith

Dylid cynnig mynediad i eiddo y Bwrdd Persondai i gynrychiolwyr y Bwrdd Persondai ac i Arolygydd yr Esgobaeth a chontractwyr, ar adegau priodol i archwilio a chynllunio gwaith. Pryd bynnag y bo modd, gwneir hyn ar adeg y cytunwyd arno gan y partïon dan sylw.

**NODER: Gweler, Y Cyfansoddiad, Pennod VII, Rhan IX, Adran 23.5 (dolen ar dudalen 2 y ddogfen hon).**

### 10.2 Mynediad i gontractwyr ac ymgynghorwyr i wneud gwaith

Mae’r Bwrdd Persondai yn cyflogi amrywiaeth o gontractwyr ac ymgynghorwyr cymeradwy y gellir ymddiried ynddynt i wneud gwaith atgyweirio a gwella, a darparu gwasanaethau proffesiynol. Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau, neu gwynion eraill, at sylw Arolygydd yr Esgobaeth, cyn gynted ag y bydd unrhyw faterion yn codi, fel y gellir ceisio eu datrys yn gynnar; gall y materion hyn gynnwys ansawdd, parhad, methiant i fynychu ar adegau penodedig, agwedd a glendid.

Dylech ganiatáu mynediad i gyfleusterau dŵr a thoiledau i unrhyw gontractwyr sy’n gweithio ar y safle; byddant wedi cael cyfarwyddyd i gadw cyfleusterau o’r fath yn lân ac yn daclus. Os oes unrhyw reswm dros beidio â hwyluso mynediad o’r fath, rhowch wybod i’r Arolygydd fel y gellir darparu cyfleusterau amgen; gallai hyn effeithio ar amseriad a chost y gwaith a gynllunnir.

Ni chaniateir i glerigion, o dan unrhyw amgylchiadau, roi cyfarwyddiadau uniongyrchol neu ychwanegol i gontractwyr a gyflogir gan y Bwrdd Persondai. Bydd unrhyw weithred o'r fath sy'n arwain at gost ychwanegol, na chytunwyd arni gan Arolygydd yr Esgobaeth, yn cael ei thalu gan y clerigion.

Mae Arolygydd yr Esgobaeth bob amser yn barod i ddefnyddio contractwyr a argymhellir gan blwyfi, yn enwedig y rhai sydd â chysylltiadau eglwysig, gan eu gwahodd i wneud gwaith, os gellir dangos bod y contractwr yn gymwys a phrofiadol iawn ac yn gallu cydymffurfio â deddfwriaeth statudol. Dylid cyflwyno manylion am brofiad, gallu ac yswiriant priodol i Arolygydd yr Esgobaeth. Mae'r dewis terfynol o ran contractwr yn eiddo i'r Bwrdd Persondai, sy'n gorfod ystyried cost ac enw da'r contractwr yn ogystal ag unrhyw gysylltiadau lleol.

# 11. Persondy gwag

## 11.1 Gadael y persondy

Rhowch wybod i Arolygydd yr Esgobaeth, yr Archddiacon, a'r Arolygydd cyn gynted â phosibl ar ôl rhoi hysbysiad i'r Esgob y bydd y persondy yn dod yn wag; maes o law, dylid rhoi gwybod iddynt o'r dyddiad symud swyddogol cyn gynted ag y bydd yn hysbys.

Bydd hysbysiad cynnar yn galluogi Arolygydd yr Esgobaeth i gynnal Archwiliad, gan roi digon o amser i chi wneud unrhyw waith adfer y mae'r clerigion yn gyfrifol amdano ac ar gyfer archwiliad dilynol lle y bo angen. Bydd unrhyw ddifrod neu ddirywiad i'r eiddo rydych chi'n gyfrifol amdano, ac eithrio traul arferol, nad yw wedi'i gywiro o fewn amser penodol, yn arwain at godi tâl.

Gadewch y persondy'n wag, gan gynnwys y gofod yn y to a'r adeiladau allanol. Gadewch yr holl finiau'n lân ac yn wag o sbwriel. Dylai pob eiddo personol fod wedi'i symud a dylai'r persondy fod mewn cyflwr addas i'w ailfeddiannu. Sicrhewch fod yr holl offer sy'n perthyn i'r persondy'n lân ac mewn cyflwr gweithio diogel. Eich cyfrifoldeb chi yw trefnu bod yr holl gyfleustodau yn cael eu trosglwyddo i'r fywoliaeth pan fyddwch chi'n gadael. Darllenwch yr holl fesuryddion a threfnwch eich bod yn talu'r biliau terfynol. Peidiwch â gofyn am i'r gwasanaethau gael eu datgysylltu. Dylech fynd ati i ailgyfeirio eich holl bost i'ch cyfeiriad newydd, neu ganslo tanysgrifiadau diangen.

Mae'r terfynau amser ar gyfer gadael y persondy fel a ganlyn:

- Terfynu'r penodiad – gadael ar unwaith.
- Symud i benodiad newydd – gadael ar ôl terfynu gyda'r notis arferol i Esgob yr Esgobaeth ar gyfer symud swydd.
- Ymddeoliad – gadael 1 mis ar ôl y dyddiad ymddeol.

- Hysbysiad i roi'r gorau iddi gan Gorff y Cynrychiolwyr – gadael o fewn 2 fis.
- Methu â chadw at amodau meddiannaeth (difrod, esgeulustod, etc.) – gadael o fewn 14 diwrnod o dderbyn y rhybudd.
- Marwolaeth - caniateir deufis o ddyddiad y farwolaeth i ddibynyddion awdurdodedig; gall yr Esgob roi estyniad o 1 mis.

**NODER: Gweler hefyd, Y Cyfansoddiad, Pennod VII, Rhan IX, adrannau 24 – 27 sy'n gynwysedig (dolen ar dudalen 2 y ddogfen hon).**

### 11.2 Gwarchodaeth persondy gwag

Os nad oes neb yn byw yn y persondy wrth iddo ddod yn wag, mae'r cyfrifoldeb am warchodaeth y tŷ'n trosglwyddo i arweinydd priodol tîm y clerigion lleol a wardeniaid yr eglwys fel y disgrifir yng Nghyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru, Cyf. I, Pennod VII, Rhan VI **(dolen ar dudalen 2 y ddogfen hon).**

Yn achos eiddo gwag lle mae gwaith ar y gweill, mae'n hanfodol bod ymweliadau safle yn cael eu gwneud ar adegau y cytunwyd arnynt gydag Arolygydd yr Esgobaeth a'r contractwr yn unig.

## 12. Gweithdrefn gwyno

Sylweddolwn fod cynnal ystad sy'n werth miliynau lawer o bunnoedd ac wedi'i gwasgaru ar draws yr Esgobaeth yn fater cymhleth ac weithiau bydd camgymeriadau yn cael eu gwneud.

Os oes gennych gŵyn am unrhyw agwedd ar waith y Bwrdd Persondai, cyfeiriwch y gŵyn yn y lle cyntaf at Arolygydd yr Esgobaeth gyda manylion llawn.

Os na fyddwch yn derbyn ymateb o fewn 7 diwrnod, ysgrifennwch at Gadeirydd y Bwrdd Persondai trwy Ysgrifennydd yr Esgobaeth.

Dylid cyfeirio gohebiaeth ar gyfer yr uchod i Swyddfa'r Esgobaeth a'i farcio'n gyfrinachol.

# NODIADAU

# Canllawiau i Glerigion

## Byw mewn Persondy
## (Argraffiad 2025)

Cyfeirnod 2483